**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Llun, 12 Mehefin 2023**

**YN BRESENNOL;** Y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd) y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Paul Hinge, Hugh R M Hughes, Ann Bowen Morgan, Ceris Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Clive Davies a Matthew Vaux (Aelodau o’r Cabinet) ynghyd â'r Cynghorwyr Amanda Edwards ac Elizabeth Evans

**Swyddogion yn bresennol**: Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter, Mr Alun Williams- Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi a Pherfformiad, Mrs Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol- Partneriaethau a Pherfformiad, Ms Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Mrs Dwynwen Jones- Swyddog Cymorth Craffu, Mrs Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

(10:00am-12:30pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Caryl Roberts a Carl Worrall am na allent fynychu'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd a'r holl Aelodau i'r cyn Gynghorydd Geraint Hughes am ei holl waith yn ystod ei gyfnod ar y pwyllgor a gwnaethant ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae’n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**3 Ethol is-Gadeirydd dros dro (hyd ddiwedd Gorffennaf 2023)**

CYTUNWYD i ethol y Cynghorydd Elaine Evans yn is-gadeirydd tan ddiwedd Gorffennaf 2023.

**4 Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-2023**

Cafodd Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 04/10/2022 a'i gyhoeddi ar 18/10/2022.Hwn oedd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n amlinellu ein cynnydd wrth gyflawni'r Polisi.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Polisi, ynghyd â'r Dulliau Ymgysylltu a ddefnyddir gan y Cyngor, rhai enghreifftiau o Ymgysylltu'n Barhaus a chrynodeb o'r ymarferion Ymgysylltu, Ymgynghori a 'Hysbysu' a gynhaliwyd yn ystod 2022-23.

Ar ddiwedd yr adroddiad mae adran casgliad wedi'i chynnwys i asesu'r gwelliannau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac i nodi lle mae angen cynnydd pellach wrth symud ymlaen.

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD ar gynnwys Adroddiad Blynyddol Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-2023 yn amodol ar:-
(i) mewn perthynas â Nod 2: Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau, Gweithred: Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu, Cynnydd: Roedd dull cyson yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a byddai'n cael ei gyflwyno ar draws holl wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2023-2024, Cyfrifoldeb: Pob Rheolwr Corfforaethol – roedd statws RAG yn Goch dim cynnydd wedi'i wneud,
(ii) y dylai cyfranogwyr yr holl ymarferion ymgysylltu gael canlyniadau'r canlyniad, a
(iii) cyflwynwyd adroddiad diweddaru monitro 6 mis i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr

**5** **Cysylltedd Digidol**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Diweddariad ar Gysylltedd Digidol. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno er mwyn rhoi trosolwg o'r mentrau a'r prosiectau yr oedd Cyngor Sir Ceredigion yn eu cynnal ar hyn o bryd i gefnogi lefelau cysylltedd digidol ar draws y Sir.

Rhoddwyd diweddariad ar Fand Eang i gynnwys Prosiectau Ffibr, Prosiect Gigabit, Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ffonau Symudol i gynnwys y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, Prosiectau Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Roedd mynediad at gysylltedd digidol gwell a dibynadwy, a chyflymu ei ddefnydd yn hanfodol i drawsnewid economi Ceredigion a galluogi gwelliannau mewn lles. Roedd technolegau digidol yn trawsnewid cyfathrebu, gwasanaethau, dysgu a chyfleoedd busnes ar gyflymder bythol gynyddol. Mae gan dechnoleg ddigidol newydd fel rhwydwaith LoRaWAN a mynediad at ddadansoddeg data y potensial i agor busnesau newydd yn ogystal â gwella bywydau ein cymunedau.

Er bod Ceredigion wedi gweld gwelliannau mewn seilwaith digidol dros y 12 mis diwethaf a rhai ardaloedd yn profi rhai o'r cyflymderau band eang cyflymaf yn y DU, mae ardaloedd o'r Sir sy'n dal i fod yn is na lefelau ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU ar gyfer band eang cyflym iawn a chysylltedd
symudol. Fel y dywedwyd o'r blaen, roedd y ddwy i dair blynedd diwethaf wedi gweld ymdrechion sylweddol i ysgogi galw ac i godi ymwybyddiaeth i ddangos y cyfleoedd masnachol oedd ar gael i gyflenwyr, gyda'r gwaith hwn

bellach yn dwyn ffrwyth trwy gyflenwyr yn dechrau defnyddio'r seilwaith a chreu cysylltiadau, a fyddai'n gweld cynnydd mewn cysylltedd a mynediad at fand eang ffibr.
Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygiadau o fewn y sector hwn ac roedd camau'n cael eu cymryd, gyda chefnogaeth a chyllid ar gael trwy sawl ffrwd. Y gobaith oedd, drwy dechnolegau fel LoRaWAN a mentrau fel prosiect Trefi SMART y byddai Ceredigion yn cael ei hystyried yn lle ar gyfer arloesi a byddai'n denu busnesau a chyflenwyr i'r rhanbarth i gefnogi'r economi ymhellach a lle bo'n briodol i Geredigion gael ei hystyried yn wely prawf i archwilio'r manteision sydd ar gael drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg ddigidol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol gwahodd cynrychiolwyr o Ddarparwyr y Gwasanaethau i gyfarfod/gweithdy o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol ac argymhellwyd bod hyn yn cael ei ystyried gan y Cabinet.

**6 Trefi SMART yng Ngheredigion**

Mae tref SMART, fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru, yn ardal drefol sy'n defnyddio gwahanol fathau o ddulliau electronig a synwyryddion i gasglu data. Defnyddir mewnwelediadau a gafwyd o'r data hwnnw i reoli asedau, adnoddau a gwasanaethau yn effeithlon; Yn gyfnewid am hyn, defnyddir y data hwnnw i wella gweithrediadau a ffyniant yn y dyfodol ar draws y dref. Dywedwyd bod saith tref yng Ngheredigion yn cymryd camau i gynyddu'r defnydd o dechnoleg i gefnogi datblygiad a thwf y trefi. Byddai'r defnydd cynyddol o dechnoleg yn galluogi Cynghorau Tref a'r Cyngor Sir i gael mynediad at ddata a dadansoddeg a fyddai'n cefnogi cynllunio trefi yn y dyfodol a helpu busnesau i weithredu yn fwy effeithlon, a thyfu. Mae'r data hefyd yn rhoi'r posibilrwydd o ddarparu profiadau gwell i ymwelwyr. Amlygwyd y galw i fanteisio ar dechnoleg yn y modd yma drwy'r gwaith datblygu cynllun Creu Lleoedd a wnaed ar draws chwech o drefi Ceredigion dros y flwyddyn ddiwethaf (Aberystwyth, Aberaeron, Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi).

Gwelwyd y bydd y dechnoleg hon yn cefnogi busnesau ac yn elwa'n gadarnhaol ar adfywio. Byddai hyn yn galluogi busnesau i gynllunio prosiectau sy'n arwain at dwf economaidd yn ogystal â'u helpu i wneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data i helpu busnesau i ddeall eu sylfaen cwsmeriaid a'u tueddiadau yn well a fyddai'n cefnogi busnesau yn eu gweithgareddau cynllunio a marchnata yn y dyfodol.

Dywedwyd bod rhaglen gymorth Trefi Wi-Fi Ceredigion ar hyn o bryd, mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Powys, wedi llwyddo i gael cyllid gan Gyngor Sir Ceredigion i ddatblygu prosiect i alluogi 'Trefi SMART' yng Ngheredigion. Roedd y prosiect wedi cynnwys gosod pwyntiau mynediad wi-fi yn Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Ceinewydd a Thregaron, gydag Aberystwyth ac Aberteifi eisoes â systemau ar waith.
Yn ogystal â darparu 'Wi-fi Trefi' ar draws pob un o'r Trefi, byddai'r offer yn darparu'r gallu i gasglu data dienw ar nifer yr ymwelwyr, y defnydd o'r gofod a'r cyfnod ymweld, a byddai'n galluogi Cynghorau Tref a'r Cyngor Sir i gynnal

dadansoddiadau cyn ac ar ôl gweithgaredd neu ymgyrch, gan helpu trefi i nodi pa ddulliau sydd orau er mwyn denu mwy o ymwelwyr i'r trefi.

Yn ogystal â dadansoddiad canol y dref byddai'r prosiect yn rhoi'r gallu i hyrwyddo busnesau lleol drwy ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu a thrwy 'Ap Canol y Dref', gan ailadrodd llawer o'r gwaith cadarnhaol a wnaed yn Aberteifi o amgylch hyn. Fel rhan o'r prosiect hwn byddai Cynghorau Tref a busnesau yn cael y cymorth canlynol i sicrhau ei lwyddiant

- Adnoddau digidol ar sut i wneud defnydd effeithiol o'r offer ar gyfer Cynghorau Tref a busnesau a byddent ar gael ar-lein.
- Byddai penodi 'Hyrwyddwr Tref SMART' yn sicrhau bod y data o'r system yn cael ei gasglu a'i rannu'n rheolaidd â busnesau perthnasol ym mhob tref.
- Bydd pecyn cymorth marchnata digidol ar gael.
- Byddai busnesau a threfi yn cael cymorth drwy fenter Llywodraeth Cymru gyda Chynghorau Tref yn ymgysylltu â'r prosiect ar hyn o bryd.
- Cymorth unigol i fusnesau i gynorthwyo i ddefnyddio data a thechnolegau digidol yn effeithiol a fyddai'n gweithredu fel astudiaethau achos i ysgogi eraill.
- Hyd yn hyn roedd yr offer wedi'u gosod ac yn weithredol yn Nhregaron, Llandysul a Cheinewydd, gyda systemau Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan bron â chael eu cwblhau a disgwylir iddynt fod yn 'fyw' erbyn diwedd Mehefin 2023.
-

Roedd offer Wi-Fi Tref eisoes wedi'u gosod yn Aberteifi ac Aberystwyth, ac mae gwelliannau pellach i'r gwasanaeth wedi'u gwneud yn y trefi hynny gan ddefnyddio cyllid Cynnal y Cardi yn ddiweddar. Mae hyn yn golygu y byddai gan 7 tref yng Ngheredigion fynediad at offer Wi-Fi y Dref.

Roedd LoRaWAN (Long Range Wide Area Network, neu Rwydwaith Ardal Eang Ystod Hir) yn Rhwydwaith Ardal Gyfan Pŵer Isel (Low Power Wide Area Network - LPWAN) a wnaed ar gyfer y Rhyngrwyd Pethau (Internet of Things - IoT). Fe'i cynlluniwyd i ganiatáu i ddyfeisiau a synwyryddion pŵer isel gyfathrebu â chymwysiadau Rhyngrwyd-gysylltiedig dros gysylltiadau diwifr amrediad hir. Mae'r synwyryddion neu'r dyfeisiau hyn yn gofyn am ddefnydd pŵer isel iawn ac yn gweithio oddi ar fatris neu ddyfeisiau cynaeafu ynni (solar fel arfer), sy'n golygu y gallant fod ar waith mewn ardaloedd anghysbell am hyd at 10 mlynedd heb fod angen eu newid.

Gallai'r defnydd o LoRaWAN helpu mewn nifer o feysydd, yn cynnwys o fewn trafnidiaeth, amaethyddiaeth, twristiaeth, rheolaeth amgylcheddol, gofal cymdeithasol a thai. Bellach mae gan Gyngor Sir Ceredigion un o'r rhwydweithiau mwyaf helaeth ar draws unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a'r Awdurdod Lleol cyntaf i fedru darparu gwasanaeth LoRaWAN ar draws y rhan helaeth o'r Sir. Yn ogystal â bod ar gael at ddefnydd y Cyngor, byddai'r rhwydwaith hefyd ar gael ac yn hygyrch i bob busnes, sefydliad a phreswylydd, gyda'r rhyddid i'r rhwydwaith gael ei ddefnyddio yn y modd y maent yn teimlo fwyaf effeithiol.

Mae caniatáu defnydd cyhoeddus o byrth yn sicrhau y byddai'r platfform yn tyfu'n fwy parod (sy'n golygu ei fod yn fwy tebygol o gael ei gefnogi i'r

dyfodol) ac fel platfform poblogaidd sy’n tyfu, mae'n golygu y bydd mwy o bobl yn datblygu synwyryddion ar gyfer LoRaWAN, gan greu mwy o galedwedd a mwy o feddalwedd yn y farchnad. Wrth i'r rhwydwaith o byrth gynyddu, mae hefyd yn ychwanegu gallu a gwytnwch lle gall ardaloedd gael eu gorchuddio gan sawl porth. Mae hyn yn golygu, os bydd porth yn methu, byddai cysylltedd yn cael ei gynnal trwy borth arall cyfagos. Trwy ddarparu mynediad am ddim i rwydwaith LoRaWAN Ceredigion a chydweithio rhwng adrannau'r Cyngor mewnol, perchnogion busnes a sefydliadau lleol eraill fel Prifysgol Aberystwyth a Chyswllt Ffermio, roeddent yn cynnig cyfle i ddatblygwyr, mabwysiadwyr a defnyddwyr terfynol dreialu a defnyddio atebion i fynd i'r afael ag ystod eang o heriau sy'n wynebu pobl leol, busnesau a sefydliadau.

Fel rhan o uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y defnydd o dechnolegau LoRaWAN ledled Cymru, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn cryn dipyn o offer, gan gynnwys pyrth LoRaWAN a synwyryddion perthnasol, i ymestyn y sylw ymhellach ac adeiladu gwytnwch y rhwydwaith presennol yn ogystal â galluogi datblygiad achosion defnydd gan y Cyngor. Byddai’r achosion defnydd hyn yn cael eu rhannu a'u hamlygu gyda'r nod o ysbrydoli busnesau a sefydliadau eraill i ddefnyddio rhwydwaith LoRaWAN i sicrhau arbedion costau a gwell effeithlonrwydd. Roedd y defnydd posibl o synwyryddion a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hasesu gan wasanaethau o fewn y Cyngor er mwyn penderfynu ar sut gall y cyfarpar hwyluso gwaith, a sut y gellir eu defnyddio yn fwyaf effeithiol.
Roedd partneriaethau â chyrff y sector cyhoeddus yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd i alluogi mynediad at byrth y gall y sefydliadau hyn eu defnyddio i ddatblygu eu prosiectau eu hunain. Drwy wneud hynny, byddai modd ymestyn y defnydd o'r rhwydwaith y mae'r Cyngor wedi'i roi ar waith a gyrru arloesedd.

Gan fod y rhwydweithiau Wi-~Fi a LoRaWAN ar waith ar draws y Sir, roedd hyn yn gosod Ceredigion mewn lle cadarnhaol i alluogi busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i allu manteisio ar ei lawn botensial. Mae angen gwneud gwaith pellach, (ac roedd peth gwaith eisoes wedi'i gynllunio), er mwyn galluogi pob rhanddeiliad i fanteisio ar rwydweithiau Wi-Fi a LoRaWAN. Roedd rhaglen Cynnal y Cardi wedi cefnogi datblygiad deunydd hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o argaeledd Wi-Fi Tref ar draws pob un o'r 7 tref, gan gynnwys cynhyrchu Baneri, Posteri / sticeri ffenestri, Baner Lampost, Pebyll bwrdd, Bagiau a chorlannau. Roedd logo / graffeg wedi'i gynhyrchu i'w ddefnyddio ar yr holl ddeunyddiau hyrwyddo.

Rhoddwyd hefyd fanylion ar Peilot Aberteifi ac Arddangos achosion defnydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Byddai gwaith yn y dyfodol o ran datblygu trefi SMART yng Ngheredigion yn canolbwyntio ar sicrhau rhagor o fanteisio ar y cyfleoedd a ddarparwyd, a chyflawni manteision gwirioneddol i fusnesau a rhanddeiliaid eraill drwy:
• Codi ymwybyddiaeth o'r cyfle a ddarperir gan, ac argaeledd rhwydwaith Wi-Fi a LoRaWAN ledled y Sir. Roedd rhanddeiliaid yn fwyfwy ymwybodol drwy'r gwaith datblygu creu lleoedd, ac roedd rhanddeiliaid lleol yn cymryd rhan

weithredol mewn deall y cyfleoedd a ddarperir gan rannu'r rhain yn ehangach.
• Rhannu arfer da ac achosion defnydd – byddwn yn adeiladu ar y prosiect peilot a'r adroddiad a gynhyrchwyd ar gyfer tref Aberteifi, er mwyn sicrhau bod y gwersi a'r cyfleoedd yn cael eu rhannu ar draws pob tref yng Ngheredigion.
• Adnodd refeniw pellach - rydym yn ymwybodol y gellir cyflymu'r gwaith ecsbloetio lle'r oedd adnodd pwrpasol i alluogi a hyrwyddo'r gwaith. Byddai swyddog digidol newydd ar gyfer Ceredigion yn cael ei benodi, a byddai ei rôl yn cynnwys cefnogi rhanddeiliaid i wneud hyn. Byddai'r gwaith yn cael ei gefnogi gan weithgarwch a ariennir gan UKSPF, sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau creu lleoedd sydd yn cael ei gwblhau ar gyfer y trefi.

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr CYTUNWYD:
(i) i nodi'r sefyllfa bresennol;
(ii) bod Clercod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael gwybod am fanteision posibl rhwydweithiau Wi-~Fi a LoRaWAN a'i ap;
(iii) cynnal trafodaeth bellach gyda'r Cadeirydd a'r Swyddogion mewn perthynas â chais y Pwyllgor i wahodd dau/tri busnes yn ardal Aberteifi i'r cyfarfod i hysbysu'r Aelodau o fanteision yr ap/ystadegau a roddwyd i'w busnes drwy rwydweithiau'r Wi-fi/LoRaWAN, neu Aelodau yn ymweld â nifer o fusnesau yn Aberteifi i geisio'r wybodaeth hon; a
(iv) gwahodd Mr Peter Williams, tîm Seilwaith Digidol Llywodraeth Cymru i gyfarfod mis Rhagfyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith presennol yng Ngheredigion

7 **Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith yn amodol ar y cais y cytunwyd arno'n flaenorol gan Aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â:-
(i) Gwahodd dau neu dri busnes sy'n defnyddio rhwydweithiau Wifi/ a LoRaWAN yn Aberteifi i gyfarfod mis Rhagfyr neu fel arall Aelodau'n ymweld â busnesau Aberteifi i geisio manteision y cynllun/ap;
(ii) gwahodd Mr Peter Williams, tîm Seilwaith Digidol yn Llywodraeth Cymru i gyfarfod mis Rhagfyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith presennol yng Ngheredigion;
(iii) bod adroddiad monitro chwe mis ar Adroddiad Blynyddol Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-2023 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr; a
(iv) bod gwaith yn mynd rhagddo ar gyflwyno adroddiad ar Ffermydd y Sir yn dilyn ymweliadau diweddar gan Aelodau

8 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

Cytunwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:**___________________